

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - Nos Fawrth, 16eg o Fehefin 2015

Presennol: Cyng. Einir Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Dyfed Williams

Ymddiheuriadau: Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gwynfor Lloyd Jones

2. Datganiad o ddiddordeb – dim

3. Cofnodion cyfarfod - 19eg o Fai 2015 - Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Dyfed Williams, eilio Cyng. Gordon Owen.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion

1. Lloches bws Caergeiliog - Nid oedd gan y Cyngor Sir wybodaeth am berchnogaeth y tir o amgylch y lloches bws wrth Poplars, ond awgrymwyd y gallai Swyddfa'r Gofrestrfa Tir fod o gymorth. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai yn well gwneud ymholiadau yn lleol gyntaf.
2. Cyrsiau Dwr Tre Ifan - Gofynnwyd i'r clerc drefnu i'r Cyngor Sir gysylltu gyda Cyng. Dyfed Williams ynghylch â'r problemau gyda'r dŵr yn sefyll yno.
3. Ffens Cae Chwarae - Cytunwyd y byddai Cyng. Dyfed Williams yn trefnu i gyfarfod â Mr Craig Redmond i drafod yr opsiynau gorau ar gyfer trin y ffens. Nodwyd hefyd bod GMS yn dympio glaswellt yn erbyn y ffens a bod plant lleol yn defnyddio'r domen fel llwyfan i ddringo dros ti gan achosi mwy o ddifrod. Gofynnwyd i'r clerc ddweud wrth GMS nad oedd hyn yn dderbyniol.
4. Seddi Gwag - cafwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir na fu unrhyw gais am etholiad, felly roedd hysbysiad ffurfiol o gyfethol wedi ei baratoi ar gyfer ei ddosbarthu o'r 22ain o Fehefin ymlaen.
6. Yswiriant AON - Cadarnhaodd y clerc fod yr offer i gyd wedi eu hyswirio yn llawn o dan y polisi newydd.
7. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim

5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref

Penderfyniadau Cynllunio

1. 32C193 - 7 Treifan, Caergeiliog - Cais llawn ar gyfer ehangu'r cwrtil - **Cytunwyd**

**CYNGOR CYMUNED
LLANFAIR YN NEUBWLL
COMMUNITY COUNCIL**

1. 32C192 - 27 Zealand Park, Caergeiliog - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd a modurdy ynghyd a chreu mynedfa newydd gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl - **Cytunwyd**

2. 32C184A Plas Bach, Llanfair yn Neubwll - Cais llawn i godi modurdy - **Cytunwyd**

6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn - fe nodwyd y canlynol

1. Gŵyl Haf i'r Teulu - Safle Sioe Môn 20/6/2015
2. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Mai

7. Materion Ariannol

Yn y banc ar 16.6.2015 Cyfrif Cyfredol £7452.10, Cyfrif Cadw £1417.17

Taliadau i'w gwneud

Cyflog y clerc (Mai)	£160.00	HMRC (TWE Mai)	£40.00
GMS(16731 and 16730)	£523.20	Eglwys Santes Fair	£50.00

Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury, eilio Cyng. Gordon Owen.)

Cytunwyd hefyd i ystyried trosglwyddo arian i mewn i'r cyfrif cadw y mis nesaf.

8. Cyfrifon 2014/2015 - Cadarnhaodd y clerc bod y rhain wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Mewnol a'i fod wedi eu cymeradwyo heb ddim i'w adrodd. Felly, cytunwyd y dylai'r Cadeirydd lofnodi'r ffurflen cyn i'r clerc eu hanfon i UHY Hacker Young.

9. Gohebiaeth Eraill - fe nodwyd y canlynol:

1. Cylchlythyr RHUN AP IORWERTH
2. Yr Eisteddfod Genedlaethol – Gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus
3. Canllawiau Statudol ar Fynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref - byddai'r clerc yn adrodd ar hyn yn y cyfarfod nesaf.
4. Peilonau - cofnodion drafft Un Llais Cymru
5. Caniatâd Arbennig i Gynghorwyr - esboniodd y clerc fod yna broses oedd yn galluogi'r Pwyllgor Safonau i roi caniatâd arbennig i Aelod i gymryd rhan mewn trafodaeth a'r bleidlais er bod ganddynt ddiddordeb rhagfarnus yn y mater o dan sylw.
6. Cynllun Adnau

10 . Unrhyw fater arall

Hysbyswyd y cyfarfod bod y bin ger y fynedfa i Stad Ifan Tre wedi diflannu - gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau am hyn.

11. Cyfarfod nesaf 21ain o Orffennaf 2015.